Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Maenofferen

Y Sgwâr
Blaenau Ffestiniog
Gwynedd
LL41 3UL

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Maenofferen

| | |
|---|---|
| Enw’r darparwr | Ysgol Maenofferen |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Cyfrwng Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 219 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 164 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 25 |
| Canran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 22.9%) | 20.3% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 11.1%) | 19.5% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 79.9% |
| Canran y disgyblion sy’n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi’r pennaeth | Medi 2017 |

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 24/03/2025 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: https://www.llyw.cymru/fy-ysgol-leol-canllaw

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae arweinyddiaeth gadarn y pennaeth, ynghyd â staff cydwybodol yr ysgol, yn meithrin lles, gofal a chymorth disgyblion yn effeithiol. Maent yn adnabod anghenion y disgyblion yn drylwyr ac mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Mae'r ymdeimlad cartrefol a chynhwysol yn cefnogi disgyblion i arddel agweddau cadarnhaol at eu dysgu.

Mae staff yn creu amgylchedd dysgu cynhyrchiol a hapus ar gyfer y disgyblion. Mae bron bob disgybl yn ymddwyn yn dda yn ystod eu gweithgareddau, wrth ddysgu'n annibynnol, ac wrth gyd-chwarae â'u ffrindiau. Gwna'r disgyblion ddefnydd gwerthfawr o'r ardaloedd dysgu allanol sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at eu lles a'u brwdfrydedd i ddysgu.

Mae athrawon yn sicrhau bod y profiadau dysgu yn ennyn a chynnal diddordeb disgyblion yn dda ac yn cynnwys eu syniadau'n fwriadus fel rhan o'r ddarpariaeth. Maent yn cynnig cymorth defnyddiol i ddisgyblion, lle bo'n berthnasol, ond prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i adborth er mwyn eu cefnogi i wneud cynnydd cadarn yn eu dysgu. Mae staff yn cyfoethogi dysgu'r disgyblion gyda phartneriaethau yn y gymuned yn hynod lwyddiannus, gan gynnwys wrth gymryd rhan yng gweithgareddau'r ganolfan amgylcheddol leol.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu ystod o fedrau yn effeithiol. Maent yn ymateb yn frwdfrydig i gyfarwyddiadau staff ac yn parchu cyfraniadau ei gilydd mewn sesiynau dysgu. Mae medrau'r  rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n llwyddiannus. Mae cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion ddatblygu eu medrau mewn gweithgareddau ymarferol, gan gynnwys arbrofion gwyddoniaeth a thechnoleg.

Mae gan y pennaeth a'r staff berthynas gadarnhaol a threfniadau cyfathrebu effeithiol â rhieni, gan gynnwys rhieni disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Mae rhieni'n  hyderus i godi unrhyw fater all effeithio ar les a dysgu eu plant gyda staff.

Mae'r pennaeth yn manteisio ar arbenigedd swyddog cyswllt teuluol yn effeithiol ar gyfer codi dyheadau'r disgyblion yn llwyddiannus a gwella cyfraddau presenoldeb, er enghraifft wrth iddynt ddysgu Cymraeg i drigolion yr ardal a chynnal gweithdai gwerthfawr iddynt yn yr ysgol.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud un argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella

A1. Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ymateb i adborth er mwyn eu cefnogi i wneud cynnydd cadarn yn eu dysgu

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif arfarniad

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar, gynhwysol a theuluol. Darperir amgylchedd dysgu ysgogol gan staff sy'n hyrwyddo lles a dysgu'r disgyblion yn hynod effeithiol. Maent yn hyrwyddo safonau ymddygiad uchel ymysg disgyblion sy'n meithrin hunanddisgyblaeth a pharch yn llwyddiannus. Mae disgyblion yn hapus ac yn datgan eu bod yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

Mae arweinyddiaeth effeithiol y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol ac yn creu diwylliant sy'n hyrwyddo gwelliant parhaus. Mae'n arddel a gweithredu ei feddylfryd yn glir i ddatblygu disgyblion lle mae eu 'dyfodol yfory yn dechrau yma heddiw'. Mae gan staff ddealltwriaeth drylwyr o anghenion disgyblion ac maent yn cefnogi pob disgybl i ddatblygu agweddau cadarnhaol at ddysgu. Mae gweithgareddau dysgu yn ymateb yn fwriadus i anghenion yr holl disgyblion.

Darperir cwricwlwm pwrpasol sy'n cwmpasu'r meysydd dysgu yn effeithiol. Mae staff yn cynnwys syniadau'r disgyblion yn fwriadus wrth gynllunio gweithgareddau dysgu sy'n ennyn a chynnal eu diddordeb a'u perchnogaeth o'r themâu. Mae eu profiadau dysgu yn cael eu cyfoethogi ar ymweliadau pwrpasol, gan gynnwys ymweliad i gastell Harlech fel sbardun i astudio hanes Owain Glyndwr. Mae disgyblion yn elwa o brofiadau gwerthfawr tra'n cydweithio'n greadigol ag arlunwyr a chantorion adnabyddus a chystadlu yn gyson mewn eisteddfodau. O ganlyniad, mae eu balchder at fod yn Gymry a'u brwdfrydedd i siarad Cymraeg yn amlwg.

Rhinwedd nodedig yw ymdrech barhaus staff i sicrhau bod yr ysgol yn nghalon ei chymuned. Er enghraifft, mae disgyblion yn chwarae rhan weithredol wrth gymryd rhan mewn gweithdai gyda'r sefydliad cymunedol amgylcheddol lleol a chefnogi'r banc bwyd.

### Ciplun: Cydweithio effeithiol rhwng yr ysgol a'r swyddog ymgysylltu â theuluoedd

Mae'r bartneriaeth sy'n bodoli rhwng yr ysgol a'r swyddog ymgysylltu â theuluoedd yn cael effaith hynod gadarnhaol ar bresenoldeb unigolion, ar les disgyblion a'u teuluoedd, a'u hyder fel dysgwyr gydol oes. Mae rhieni'n cadarnhau bod y bartneriaeth hon yn hynod werthfawr  sydd wedi trawsnewid agwedd eu plant at fynychu'r ysgol yn rheolaidd. Mae aelodau o'r gymuned leol yn canmol y bartneriaeth gan eu bod yn elwa o waith disgyblion, er enghraifft wrth addysgu Cymraeg i'r trigolion yn y gymuned ac mewn gweithdai yn yr ysgol fel rhan o'r bartneriaeth.

O ganlyniad, mae'r profiadau'n  cyfrannu'n llwyddiannus at ddatblygu disgyblion i fod yn ddinasyddion aeddfed a chydwybodol sy'n arddangos gofal a pharch at eu cymuned a'u hamgylchfyd.

Mae ardaloedd dysgu yn cynnwys nifer o weithgareddau bwriadus sy'n cyfrannu'n effeithiol at ddatblygu medrau cyfathrebu, cymdeithasol a chydweithio y disgyblion. Mae ardaloedd allanol y dosbarthiadau yn cynnwys ystod o offer deniadol a phwrpasol sy'n cefnogi lles ac agweddau cadarnhaol disgyblion at eu dysgu. Er enghraifft, maent yn datblygu eu medrau trafod arian yn effeithiol yn ardal siop 'Spa Stiniog'.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau llafar yn dda. Maent yn gwrando'n astud ar gyfarwyddiadau oedolion a chyfraniadau ei gilydd. Mae'r disgyblion ieuengaf yn datblygu eu medrau darllen yn llwyddiannus, gyda'r rhan fwyaf o'r disgyblion hynaf yn darllen yn rhugl yn y ddwy iaith erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu yn dda, gan ddefnyddio cystrawen gywir ac ansoddeiriau pwrpasol.

Mae athrawon yn darparu cyfleoedd effeithiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau rhifedd ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn datblygu medrau trin data trwy greu graff yn cymharu hinsawdd Blaenau Ffestiniog a Manaus. Mae'r rhan fwyaf yn gwneud cynnydd cryf wrth ddatblygu eu medrau digidol mewn amrywiol gyd-destunau. Mae disgyblion ar frig yr ysgol yn creu fideo effeithiol ac yn creu cronfa ddata am blanedau'r gofod yn fedrus.

Mae staff yn darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau dysgu yn annibynnol, mewn parau ac o fewn grwpiau bychain. Defnyddia'r athrawon ystod o ddulliau addysgu pwrpasol sy'n cefnogi'r disgyblion i adnabod eu cryfderau a'r meysydd sydd angen eu gwella yn eu dysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i adborth llafar staff. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i adborth yn eu dysgu er mwyn eu cefnogi i wneud cynnydd cadarn yn eu dysgu.

Mae'r ysgol yn darparu cymorth hynod effeithiol ar gyfer disgyblion ADY, gan gynnwys cydweithio ag asiantaethau allanol, pan fo'n briodol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos cynnydd cryf. Mae'r ysgol yn cefnogi anghenion emosiynol, iechyd a chymdeithasol pob un o'r disgyblion yn fwriadus sy'n eu galluogi i ymgysylltu'n gadarnhaol â'u profiadau dysgu. Gwneir defnydd effeithiol o'r 'Hafan' i gynnal lles disgyblion a'u cefnogi i ymgysylltu â'u dysgu.

Mae staff yn cefnogi disgyblion i ddatblygu eu hymwybyddiaeth ysbrydol a moesol yn addas. Er enghraifft, yn y gwasanaethau boreol, mae cyfleoedd iddynt fyfyrio ar faterion moesegol gan ddysgu am bwysigrwydd cydweithio a pharchu eu hawliau. Mae'r disgyblion ieuengaf yn deall bod pawb yn wahanol, gan gynnwys teuluoedd amrywiol, gyda'r disgyblion hynaf yn ymwybodol o ddylanwad pobl dduon adnabyddus mewn digwyddiadau pwysig mewn hanes.

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o gyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu eu dealltwriaeth o wneud dewisiadau bywyd iach. Maent yn cynnwys ystod o gyfleoedd i ddatblygu medrau corfforol disgyblion trwy weithgareddau hwyliog a difyr. Maent yn cynnwys darparu cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau corfforol yn yr ysgol ac yn y gymuned, cymryd rhan mewn cystadlaethau chwaraeon a cherdded mynyddoedd lleol.

Mae'r ysgol yn paratoi disgyblion yn llwyddiannus ar gyfer cam nesaf eu dysgu, er enghraifft wrth gefnogi disgyblion i drosglwyddo i'r ysgol uwchradd. Mae grwpiau llais y disgybl wedi eu sefydlu'n addas ac yn dechrau dylanwadu ar agweddau o waith yr ysgol, fel wrth sefydlu ardal ffitrwydd allanol yn dilyn cais gan aelodau'r cyngor lles.

Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn i hyrwyddo presenoldeb rheolaidd disgyblion, gan gynnwys monitro dyddiol, cyfathrebu'n rheolaidd â rhieni a gwaith dilynol wedi'i gefnogi gan y swyddog lles, yn ôl yr angen. O ganlyniad, mae cyfraddau presenoldeb yn cynyddu'n gadarnhaol dros amser.

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth drylwyr o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w datblygu. Mae staff yn gwneud defnydd effeithiol o dystiolaeth o'r addysgu a'r cwricwlwm i fonitro cynnydd disgyblion. Maent yn gwneud defnydd addas o ganfyddiadau hunanwerthuso i bennu blaenoriaethau pwrpasol ar gyfer gwella'r ddarpariaeth a chodi safonau. Mae staff yn cydweithio'n effeithiol i fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol.

Mae llywodraethwyr yn gefnogol i waith yr ysgol. Maent yn adnabod yr ysgol a'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu yn dda. Maent yn datblygu eu dealltwriaeth o weithgareddau gwella'r ysgol, er enghraifft wrth ystyried canfyddiadau ymweliadau â'r dosbarthiadau a thrafod adborth athrawon ar waith disgyblion. O ganlyniad, mae eu hadnabyddiaeth o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w datblygu yn drylwyr.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol i ddatblygu medrau athrawon a cymorthyddion sy’n seiliedig ar eu hanghenion proffesiynol unigol, eu diddordebau personol, blaenoriaethau’r ysgol a rhai cenedlaethol. Caiff staff eu hannog i ddatblygu’n broffesiynol yn barhaus trwy ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol, er enghraifft wrth ymgymryd â rôl arwain ADY gyda’r awdurdod lleol.

Mae gan yr ysgol berthynas gadarn â rhieni. Maent yn cadarnhau eu bod yn gallu sgwrsio ag unrhyw aelod o staff i drafod lles ac addysg eu plant ac yn datgan eu bod yn falch bod eu plant yn mynychu Ysgol Maenofferen.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder.

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli’r safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o'r holiadur i rieni/gofalwyr a'r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a'r corff llywodraethol / aelodau'r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i'w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a'i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â'r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a'r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a'r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo'n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo'n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â'r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu'r disgyblion (lle y bo'n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella'r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau'r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a'r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/05/2025